**Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar y gwelliannau arfaethedig i Reolau Sefydlog 15 a 24**

**Diben**

1. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried a chymeradwyo'r gwelliannau arfaethedig i Reolau Sefydlog 15 a 24 sy'n atodedig.

2. Cynigir y gwelliannau gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn dilyn ei ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig. Byddai'n newid enw'r Pwyllgor i'r 'Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol', sy'n adlewyrchu ei rôl eang o dan Reol Sefydlog 15. Ni fydd hyn yn newid y cylch gorchwyl na phwerau'r Pwyllgor.

**Y cynnig**

3. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y gwelliannau arfaethedig ar 19 Ionawr 2010 a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**
**Ionawr 2010**

**Atodiad A**

**Rheol Sefydlog 15 – ~~Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth~~ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**

15.1 Bydd ~~Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth~~ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

**Atodiad B**

**Rheol Sefydlog 24 – Is-ddeddfwriaeth (Heblaw is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig)**

24.6 Ni chaniateir ystyried cynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 24.4 yn y cyfarfod llawn hyd nes y bydd naill ai:

(i) ~~y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth~~ y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol neu unrhyw bwyllgor arall, sydd wedi rhoi'r hysbysiad a grybwyllir yn Rheol Sefydlog 24.7, wedi cyflwyno adroddiad ar yr offeryn neu'r drafft; neu

(ii) 20 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn neu'r offeryn drafft gael ei osod

24.7 Os bydd unrhyw bwyllgor, heblaw'r ~~Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth~~ Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar offeryn neu offeryn drafft y mae Rheol Sefydlog 24.4 yn gymwys iddo, rhaid iddo roi hysbysiad i'r llywodraeth ei fod yn bwriadu gwneud hynny heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.